

Cofion

Estynnwn ein cofion at y cleifion yn y Fro gan gofio yn arbennig am Ann Davies (Llanfair) ac Eirianwen Martin (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd; Nerys Roberts-Jones (Llansannan) yn Ysbyty Walton; Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Maelor; Thomas Evans (Llanfair) yn Ysbyty Llanelwy; a William Jones (Llanefydd) ac Elfed Davies (Saron) yn yr Inffirmari. Da deall bod Eirian Davies (Cefn Meiriadog) a Meirion Evans (Henllan) wedi cael dod adre erbyn hyn. Anfonwn ein cofion hefyd at Bethan Lloyd (Llanfair) yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar, ac at eraill o'n plith sydd angen ein gweddïau y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan weddio y byddant yn adnabod ei gwmni, ei agosrwydd a'i ddaioni.

** Dosbarth Derbyn **

Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Ffestri Capel Groes **bore dydd Sul, Mawrth 6^{ed} o 11:30 – 12:30**. Diolch i bawb sydd eisoes wedi ymateb. Os oes unrhyw un arall am ymuno, a wnewch chi gysylltu â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda?

Gwyl Gristnogol Llanw - Ebrill 25 - 29

Os oes digon o ddiddordeb, byddwn yn trefnu bws mini i fynd i Llanw am ddwy noson. Y nôd yw cynnig trafndiaeth a llety ar gyfer y bobl hynny sy'n dymuno mynd i'r wyl ond sydd ddim yn gallu mynd eu hunain nac aros mewn carafan. Byddwn yn defnyddio llyfydd Gwely a Brecwast yng Nghei Newydd ac yn eich cludo rhwng y pentref a'r wyl yn y bws mini. Bydd y pris yn dibynnu ar y llety a nifer y bobl sy'n mynd, ond dim ond lle i 16 sydd ar y bws mini. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Elinor (870534) yn fuan!

I ddod

- **Chwefror 22ain -23ain: Chwaraeon 110% yng Ngholeg y Bala i flynyddoedd 9-13.** Hyfforddiant rygbi a hoci ar y dydd Mawrth gyda Garin Jenkins ac Elinor Owen yn hyfforddi, a hyfforddiant pêl-droed a phêl-rwyd ar y dydd Mercher, gydag Aled Myrddin a Lisa Johnson yn hyfforddi. Bydd y diwrnod yn cychwyn am 10.00 ac wedi'r hyfforddiant, bydd cyfle i chi aros am swper a chael amser yng nghwmni Garin Jenkins ac Aled Myrddin tan tua 7.30 yr hwyr. Cost: £15 y dydd neu gellir rhoi gostyngiad os bydd nifer yn mynychu o glwb ieuenctid/eglwys. Mwy o wybodaeth ar gael trwy ffonio Coleg y Bala (01678 520565). Enwau i Steff neu Gwenno erbyn Dydd Mawrth nesaf, Chwefror 15fed, os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Chwefror 2011

"...ei bregethu i'r Cenhedloedd, ei gredu drwy'r byd, ei ddyrchafu mewn gogoniant." 1 Tim.3:16

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Un o'r hanesion y bûm yn ei ddarllen yr wythnos yma ydi hanes Lala a'r marblis! Anti Gwen – Gwen Rees Roberts, y Bala gynt - sy'n adrodd yr hanes yn ei llyfr 'Memories of Mizoram' (tud. 148).

Roedd disgwyl mawr am gyhoeddiad y Beibl cyfan yn iaith y Mizo a phobl wedi tyrru o bob cwr i brynu Beibl – llawer ohonynt wedi cerdded am filltiroedd, fel Mari Jones gynt, a'u bryd ar gael gair Duw yn eu hiaith eu hunain. Yn sgîl y brwdfrydedd, roedd awydd gan amryw i sefydlu Cangen o'r Feibl Gymdeithas ac roedd athrawes Lala wedi annog y plant i ddod ag un rupee i'w gyfrannu at y Feibl Gymdeithas fel y byddai plant eraill yn cael y Beibl rhyw ddydd yn eu hiaith hwythau. Trefnwyd i'r plant gasglu coed tân y Sadwrn canlynol er mwyn cael ei werthu a chodi'r arian angenrheidiol. Yn anffodus, roedd Lala yn sâl y dydd Sadwrn hwnnw ac ni allodd ymuno yn y casglu a'r gwerthu. Nid oedd ganddo rupee i'w gynnig. Teimlai'n chwithig iawn wrth i'r plant eraill gyfrannu eu harian i helpu'r Feibl Gymdeithas a cherddodd yn ara deg adre ar ei ben ei hun. Teimlai'n drist ofnadwy ond gwyddai fod ganddo bedair marblen wydr liwgar yn ei boced - yr unig anrheg a gafodd y Nadolig hwnnw - ac roedd ganddo feddwl y byd ohonynt. Meddylodd am eu gwerthu ond meddylodd eilwaith – roeddent yn werthfawr ganddo. Stopiodd i chwarae un gêm ar ei ben ei hun, ond gan gymaint yr awydd a oedd ynddo i helpu plant eraill i gael y Beibl, penderfynodd y byddai yn eu gwerthu, wedi'r cyfan, i ffrind a wyddai ei fod yn eu hoffi. Wedi cael yr arian rhedodd at ei athrawes Ysgol Sul, ac mewn llawenydd mawr, derbyniodd hi yr arian a chafodd yntau'r boddhad o wybod ei fod wedi gwneud ei ran yr un fath â phawb arall.

Ychydig a wyddom beth yw canlyniad ein hawydd i ddosbarthu a chyhoeddi Gair Duw. Mae yna eglwys gref ym Mizoram heddiw ac mae nifer y cenhadon sydd ganddynt bron yn 700. A hynny o boblogaeth o dri chwarter miliwn – yr un rhif, bron a bod, â nifer y Cymry Cymraeg yng Nghymru.

Yr wythnos nesa byddaf yn mynd yn ôl i Mizoram, man fy ngeni, i weld sut y maent yn ymdopi â realiti a bygythiad HIV ac AIDS. Bydd rhai ohonoch yn cofio ymweliad Dr Sanga a Dr Rema dros y blynyddoedd a byddaf yn cael yr hanes diweddaraf ganddynt ac yn eu cefnogi yn eu hymdrechoedd caled dros iechyd a lles eu pobl. Gobeithiaf anfon gair oddi yno ar gyfer Llais Bro Aled dros y bythefnos nesa a byddaf yn mynd â'ch cofion chwithau a'ch dymuniadau gorau iddynt.

Arglwydd, rho i ni'r un brwdfrydedd dros dy Air a'r un hiraeth am ei weld yn llwyddo, a bendithia ni eto yng Nghymru â'th Lân Ysbryd.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00.

Mercher **Adnabod Sei@** yn mynd i Fae Colwyn.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.

Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Andras Iago yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd John Hughes yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwirydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Sul nesaf Bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a'r Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.15.

Iau Cymdeithas Lenyddol Cefn Berain yn cyfarfod **am 7.30** pryd y bydd Elen Lloyd yn sgwrsio am 'Cam wrth Gam'. Croeso i bawb.

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau